GambleAware

# GambleAware
# Lived Experience Council
# 2024 Welsh Recruitment

## Information Pack

GambleAware

## Table of Contents

Introduction ....................................................................................................3
About GambleAware....................................................................................................3
About GambleAware Lived Experience Council....................................................................................................5
Membership....................................................................................................5
Eligibility criteria....................................................................................................6
Overview of the planned work ....................................................................................................7
Co-production approach ....................................................................................................7
The role of Lived Experience Council members....................................................................................................8
Selection timeline....................................................................................................9
Conflict of interest....................................................................................................10
Additional information....................................................................................................10
Get in touch....................................................................................................12
Cyflwyniad....................................................................................................14
Gwybodaeth am GambleAware....................................................................................................14
Gwybodaeth am Gyngor Profiad Bywyd GambleAware ....................................................................................................16
Aelodaeth....................................................................................................16
Meini prawf cymhwysedd....................................................................................................17
Trosolwg o'r gwaith a gynllunnir ....................................................................................................18
Dull cydgynhyrchu ....................................................................................................18
Rôl aelodau'r Cyngor Profiad Bywyd....................................................................................................19
Gwrthdaro buddiannau....................................................................................................21
Gwybodaeth ychwanegol....................................................................................................21
Cysylltwch â ni ....................................................................................................23

**The Welsh translation is available from page 13.**
**Mae'r cyfieithiad Cymraeg ar gael o dudalen 13 ymlaen.**

## Introduction

We are delighted to announce the r**ecruitment of a Welsh representative to join our Lived Experience Council (LEC) as a full member**, as part of GambleAware's proud commitment to engage with communities of people who have experienced gambling harms.

The Lived Experience Council was first launched in the summer of 2022 and it comprises entirely of people with direct lived experience of gambling harms, as well as those who are indirectly impacted by others' gambling harms, to share their expertise and experience and to inform GambleAware and its Board of Trustees.

There are currently 11 members sitting on the Council, including its Chair:

> *"As Chair of the LEC, I'm looking forward to welcoming a new member to represent Wales to enhance the diversity and viewpoints of lived experience further. Following on from recruiting three new members last year, and seeing the support, guidance and integration so quickly into the LEC, and how welcomed they all felt, we are all keen to extend this further to a new member to become instantly valued and part of the team."*
>
> Ben Howard, LEC Chair

## About GambleAware

GambleAware is the leading independent charity (Charity No. England & Wales 1093910, Scotland SC049433) and strategic commissioner of gambling harm education, prevention and treatment across Great Britain to keep people safe from gambling harms.

GambleAware commissions the National Gambling Support Network (NSGN) which provides, free confidential treatment for almost 7,000 people, as well as the National Gambling Helpline which takes around 44,000 calls a year. The charity is independent and evidence-based, with a robust governance process in place to ensure the industry has absolutely no input or influence on our work.

For more information about GambleAware and the activities of the Lived Experience Council, please take a look at the 2022/23 Annual Report.

## Organisational Strategy and Strategic Framework

In April 2021 GambleAware published a new Five-year Organisational Strategy. This outlined the four commissioning objectives the charity will deliver against over the comings years to help prevent gambling harms:

- Increase awareness and understanding of gambling harms;
- Increase access to services and reduce gambling harm inequalities;
- Build capacity amongst healthcare professionals, social prescribers, debt advisers, faith leaders, community services and others so they are better equipped to respond to gambling harms;
- Improve accessibility and effectiveness of the National Gambling Treatment Service.

GambleAware's organisational strategy explicitly commits to 'invest in the development of lived experience networks, ensuring representative diversity and democratic infrastructure allowing networks to speak with a representative voice and to be sustainable and accountable to their membership. [To] Use the expertise within the network to inform our commissioning approach and ensure we are accountable to the very communities our commissioning serves.'

In 2023, with key input from the Lived Experience Council, GambleAware developed a **Strategic Framework**, which embeds a public health approach and informs our commissioning decisions. The framework encompasses the strategy to drive forward a coordinated whole systems approach, while keeping a focus on individual need and acknowledging the impact of gambling harms on families, communities and society.

At the core of this Strategic Framework, GambleAware has identified **5 long-term outcomes**, which will collectively lead to a society safe from gambling harms. These are:

1. Increase the awareness and understanding of the risks of gambling and its harm across the general population.
2. Prevent gambling harm amongst individuals and communities at greater risk of experiencing it.
3. Prevent the escalation of gambling harm.
4. Ensure individuals and communities receive a broad range of appropriate services.
5. Reduce the legacy of gambling harm.

## About GambleAware Lived Experience Council

The purpose of the Lived Experience Council (LEC) is to ensure that communities of people with lived experience of harms associated with gambling can provide expert advice to GambleAware's activities, programmes and strategic development.

The Council:

- represent the views of affected groups;
- provide strategic advice based on members' own lived experience of gambling harms;
- make recommendations which will inform and contribute to the strategic planning and development of GambleAware (GA). These will be shared with the GA Board of Trustees;
- act in pursuance of GambleAware Charitable Objectives.

The LEC also support GA Board of Trustees (BoT) and the wider GambleAware team by:

- helping identify and understand GA's audiences;
- providing insight and understanding of what resonates with LE community;
- Horizon-scanning of challenges and opportunities of the constantly evolving landscape GA operates in, while remaining within the remit of GA's charitable objectives.

The LEC have a rotating observatory and advising seat at GA Board of Trustees meetings.

You can read more about the LE Council and how GambleAware engages with the Lived Experience Community here.

## Membership

The LEC consists of up to 12 members, including a Chair. Currently, there are two vacant seats that GambleAware is recruiting for.

The term of office is 2 years and it can be renewed once (maximum of 4 years in total).

We encourage applications from individuals from groups that are disproportionately affected by gambling harms, currently underrepresented and from minority communities.

For this new round of recruitment, we are specifically seeking only applications from Welsh residents, to ensure that the Lived Experience Council has full representation of the developed nations.

One of the current LEC members, reflecting on the first 12 months of LEC activities, shared:

> *'When I joined the LE Council, I was not sure what to expect, but I was excited to get involved. I have learnt a great deal about the sector and the amazing work and support that GambleAware provide for the lived experience community of gambling harms. Since becoming a LEC member, I have been involved in many of the projects and workstreams supporting the work of GambleAware, and the knowledge I have learnt has been invaluable. It has given me a platform to elevate my voice and given me confidence to feel that my contribution is valid and makes a difference. I feel that I am not only part of the Lived Experience Council, but part of the GambleAware team and part of a family. Right from the start I was made to feel welcome and there is a real sense in the council of looking out for each other and ensuring we are all in a good place. I feel in the LE Council I can be myself, ask questions and not be judged.'*

## Eligibility criteria

In order to qualify for the LEC you must:

- Reside in Wales;
- Be 18 years old or over;
- Have lived experience of gambling harms;
- Be more than 6 months in recovery (this applies only to those who experienced gambling harms due to their own gambling, e.g. this does not apply to applicants identifying as 'affected others').
- Not work – either paid or unpaid - for the gambling industry;
- Not receive (yourself or the business you may be a director of or have a financial interest in) LCCP RET funding (gambling operators' contributions). To note this does **not** apply to employees below Director level or to consultants of organisations directly receiving RET funding, or to employees and consultants of organisations being awarded RET funding via GambleAware.

Please note: LE Council members may also be members of other lived experience groups. However, in line with the information outlined in the 'Conflict of interest' section, please note that LEC members who are also part of other groups may at times be asked to step out of the room for certain agenda items where a conflict of interest may be present. Following this, participation would continue as normal.

## Overview of the planned work

The LEC have approx. four meetings a year, on average once per quarter.

Frequency and format (in-person or online or a hybrid approach) of these meetings may vary to fit in with LEC work plans and actions. A week prior to each meeting, a meeting pack will be circulated by email, containing all the papers to be read ahead of the meeting.

Prior to joining their first LE Council meeting, the new LEC member will be asked to attend some training and induction sessions. We are also implementing a mentoring system, where the new LEC joiner will be buddied up with a current LEC member throughout the induction period and first few weeks in the post.

Members may be required to do additional days/work outside meetings and to take part in subgroups to contribute to activities of strategic relevance across GambleAware. These subgroups may meet online or require occasional additional travel to the GambleAware office. Opportunity for contributing to these workstreams come up throughout the year, depending on the organizational need and on LEC priorities. Further details will be discussed as part of the induction sessions and following LE Council meetings.

One of the LEC members who joined the LE Council in 2023, shared:

> *"Knowing I was joining the Panel later than most other members, I was a little apprehensive about joining an established group that was familiar with the work they were already heavily involved with. However, I immediately felt welcomed and at ease, with absolutely no sense of pressure or expectation to get up to speed. I was able to familiarise myself with all the projects at a comfortable pace."*

## Co-production approach

A collaborative approach to shared ownership is key to the LEC.

For example, the Terms of Reference, Safeguarding Approach and Meeting Etiquette have been developed and refined with current LEC members, together with GA staff involved in / responsible for governance across the organisation.

Please refer to the FAQ session for more information on the application and relevant policies.

## The role of Lived Experience Council members

Values and Behaviours

- Diversity of experiences, views and opinions is welcome and seen as a strength.
- Everyone has an equal opportunity to participate and to be heard.
- A collaborative approach to working together is key to achieve positive outcomes.
- Everyone is accountable for their behaviours, is respectful of others and courteously talks through disagreements.
- It is always OK to ask for support and help.

What you will do with the LEC

- Work collaboratively with other LE Council members to represent the views of groups affected by gambling harms.
- Agree and contribute to a workplan for the LE Council to inform GambleAware's strategic planning and development, together with other LE Council members and the GA involvement team.
- Support shaping a wide range of GambleAware activities through recommendations and advice.

What you will bring to the LEC

- Insights and advice based on your own lived experience of gambling harms.
- Constructive comments and feedback to contribute to the LEC meetings, objectives and workplan.
- Expertise in other areas relevant to the work of GambleAware is also welcome.
- An understanding of corporate governance (the mechanisms, processes and relations by which organisations are directed and controlled) or a willingness to learn through training offered by GambleAware.

The skills you need

- Time management skills: being reliable and organized when completing agreed tasks and being open to reaching out for further support from the Chair or GA staff, if needed.
- Computer skills: being able to access emails on a regular basis, to share and review documents online, and to participate in online meetings when needed.
- Communication skills: being able to share and clearly articulate your views, and to apply effective listening skills when working with others; being able to talk about your lived experience of gambling harms within the confidentiality of the LEC and in a way that you feel comfortable with.
- Teamwork skills: being able to work together in a group setting even when there may be disagreements with views expressed by other team members, maintaining a willingness to positively contribute to group discussions.

## Selection timeline

- Call for applications launched on Wednesday 20th March 2024.
- An online Q&A and Information session will be held on Thursday 18th April 2023, 12 - 1pm, to attend please **pre-register here**.
- The closing date for applications is **12pm on Monday 29th April**. To apply in English, please complete this online Application form **available here**. To apply in Welsh, please complete this online Application form **available here**.
- Applicants will be notified by Monday 13th May, if they have been invited to the interview stage.
- Interviews will take place on Thursday 23rd May, where possible at the GambleAware office in London.
- Interview outcomes will be communicated by Friday 31st May.
- Training for the new Council member will take place in June and it will be a mixture of in-person and online sessions and include meeting current Council members.
- The first LEC meeting will be on Thursday 11th July, again preferably in person at the GambleAware office in London.

## Conflict of interest

LEC members will be asked to fill in a declaration of interest form.

If a LEC member has a conflict of interest on an agenda item in a council meeting, the person will be asked to leave the meeting for the duration of that discussion.

## Additional information

a. **Can I apply again, if I already applied in previous rounds of recruitment but at the time my application was not successful?**

Yes, you can apply again, as long as you meet the eligibility criteria.

b. **What will the interview be like?**

The interview will be structured as an informal conversation with a small group of GambleAware representatives. This will include a couple of current members of the LEC, a Trustee and a couple of GA staff members. You will be asked a few questions for the panel to get to know you and to hear more about your interest and suitability for the role, and you will also have the opportunity to ask questions to the panel.

On the day of the interview, you will have the opportunity to speak to some of the current LEC members, for an informal conversation.

The interview will last approximately 1 hour. We are hoping to hold interviews in-person at our London office (in Holborn), and travel costs will be reimbursed. However, if travelling was to be a barrier, or if the pre-set interview date of May 23rd did not suit you, please do let us know and we will look into alternative arrangements.

c. **Remuneration and reimbursement policy**

You can find GambleAware's policy on remuneration and reimbursement of expenses for the involvement of people with Lived Experience **here.**

Please note that LEC members can choose between 3 remuneration options: to be self-employed, to be on GambleAware's payroll as casual workers, or to act as volunteers. More details on these options and on our approach to the reimbursement of expenses can be found in the policy.

d. **What development opportunities will GambleAware offer you?**

We want to encourage the involvement of a wide range of people from different backgrounds and different levels of knowledge and expertise, and within that we recognise that there may be need for development opportunities. GambleAware will provide relevant training and mentorship opportunities for all LEC members: for example, some training and upskilling sessions will be offered as part of the LEC Induction process for LEC members, and additional opportunities will be identified throughout the year.

e. **What support will be available?**

The wellbeing of Lived Experience representatives is of paramount importance for GambleAware. The LEC has co-produced with GambleAware a bespoke paper outlining its approach to supporting the wellbeing of LEC members. The LEC also co-produced in autumn 2022 a Meeting Etiquette paper, to address shared working practises, to ensure that everyone contributing to this work can do so safely.

As mentioned earlier in this pack, we are also implementing a mentoring system, where the new LEC joiner will be supported by a current LEC member throughout the induction period. This will include also support in familiarising yourself with the LEC meeting pack: this papers pack can be quite lengthy and could require approx. 2 hours for reading and preparation ahead of each meeting, but support will be provided to work together on any queries you may have on this.

f. **How is this different from the expression of interest for Lived Experience Involvement opportunities across GambleAware's wider work?**

The LE Council provides the Board with expert independent advice regarding GambleAware's activities, programmes and strategic development. Membership to the LEC lasts for 2 years.

Lived Experience representatives who **sign up** to hear about **involvement opportunities in GambleAware's wider work** will make no initial time commitment. A range of one-off opportunities will be emailed throughout the year, with a variety of ways to contribute to day-to-day work, for example:

- Contributing to focus groups and workshops to help us develop aspects of our programmes and project, for example by providing comments when identifying priorities for our work and by offering feedback on ideas for new projects.
- Offering feedback on documents such as project briefs and evaluation reports or other project-related documentation, so to help us reviewing them before they are shared with the wider public.
- Completing online surveys to share your lived experience perspective on areas relevant to the GambleAware portfolio of projects.

g. **Can I apply to the LEC while also signing up to the community of Lived Experience representatives for one-off involvement opportunities?**

Yes, you can do both! However, please note that if you are successful in your application to the LEC, you might not be able to contribute to other short-term involvement opportunities at GambleAware. This is due the need of LE Council members to maintain an independent strategic oversight of all GambleAware's activities.

## Get in touch

For any questions, or if you have troubles accessing the files embedded in this document, please contact us by emailing Involvement@gambleaware.org or phone us at 07342870711 during office hours.

GambleAware

# Ymgyrch Recriwtio 2024 yng Nghymru ar Gyfer Cyngor Profiad Bywyd GambleAware

Pecyn Gwybodaeth

GambleAware

## Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyhoeddi'r ymgyrch i **recriwtio cynrychiolydd o Gymru i ymuno â'n Cyngor Profiad Bywyd (LEC) fel aelod llawn**, fel rhan o ymrwymiad balch GambleAware i ymgysylltu â chymunedau o bobl sydd wedi profi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Fe lansiwyd y Cyngor Profiad Bywyd gyntaf yn ystod haf 2022. Mae gan bob aelod brofiad bywyd uniongyrchol o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, ac yn eu plith ceir unigolion sydd wedi'u heffeithio'n anuniongyrchol gan niwed sy'n gysylltiedig ag arferion gamblo rhywun arall, er mwyn rhannu eu harbenigedd a'u profiad, a chodi ymwybyddiaeth GambleAware a'i Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Mae 11 aelod yn eistedd ar y Cyngor ar hyn o bryd, gan gynnwys ei Gadeirydd:

> *"Fel Cadeirydd yr LEC, rwy'n edrych ymlaen at gael croesawu aelod newydd i gynrychioli Cymru, fel cam pellach i hybu amrywiaeth a safbwyntiau pobl o ran eu profiad bywyd. Ar ôl recriwtio tri aelod newydd y llynedd, a gweld y gefnogaeth a'r arweiniad a roddwyd, ynghyd â'r modd y cawson nhw eu hintegreiddio mor gyflym o fewn y LEC, a'r croeso a deimlwyd gan bob un ohonyn nhw, rydym ni'n awyddus i ymestyn hyn ymhellach i aelod newydd gael dod yn aelod o'r tîm a chael ei werthfawrogi o'r cychwyn cyntaf."*
>
> Ben Howard, Cadeirydd yr LEC

## Gwybodaeth am GambleAware

GambleAware yw'r brif elusen annibynnol (Elusen Rhif 1093910 yng Nghymru a Lloegr, a Rhif SC049433 yn yr Alban) a'r comisiynydd strategol yng nghyswllt addysgu ynghylch niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, ynghyd â'i atal a darparu triniaeth ar ei gyfer, ar hyd a lled Prydain Fawr, er mwyn cadw pobl yn ddiogel rhag niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Mae GambleAware yn comisiynu'r Rhwydwaith Cymorth Gamblo Cenedlaethol (NGSN) sy'n darparu triniaeth gyfrinachol am ddim i bron i 7,000 o bobl, yn ogystal â'r Llinell Gymorth Gamblo Genedlaethol sy'n derbyn tua 44,000 o alwadau'r flwyddyn. Mae'r elusen yn annibynnol ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth, a chanddi broses lywodraethu gadarn ar waith i sicrhau nad yw'r diwydiant yn cael unrhyw fewnbwn yn ein gwaith neu ddylanwad arno.

Am ragor o wybodaeth ynghylch GambleAware a gweithgareddau'r Cyngor Profiad Bywyd, cymrwch olwg ar Adroddiad Blynyddol 2022/23.

## Strategaeth Sefydliadol a Fframwaith Strategol

Yn Ebrill 2021, cyhoeddodd GambleAware Strategaeth Sefydliadol Pum Mlynedd. Roedd hon yn amlinellu'r pedwar amcan comisiynu y bydd yr elusen yn cyflawni yn eu herbyn dros y blynyddoedd i ddod, i helpu i atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo:

- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo;
- Cynyddu mynediad i wasanaethau a lleihau anghydraddoldebau o ganlyniad i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo;
- Meithrin capasiti ymhlith gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, ynghyd â phresgripsiynwyr cymdeithasol, cynghorwyr dyledion, arweinyddion ffydd, gwasanaethau cymunedol ac eraill, er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa well i ymateb i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo;
- Gwella hygyrchedd ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol.

Mae strategaeth sefydliadol GambleAware yn ymrwymo'n glir i 'fuddsoddi yn natblygiad rhwydweithiau profiad bywyd, gan sicrhau amrywiaeth o ran cynrychiolaeth a seilwaith democrataidd sy'n caniatáu i rwydweithiau siarad â llais cynrychiadol a bod yn gynaliadwy ac yn atebol i'w haelodaeth. Defnyddir yr arbenigedd o fewn y rhwydwaith i lywio ein dull comisiynu ac i sicrhau ein bod yn atebol i'r union gymunedau a wasanaethir gan yr hyn a gomisiynir gennym.'

Yn 2023, gyda mewnbwn allweddol y Cyngor Profiad Bywyd, datblygodd GambleAware **Fframwaith Strategol**, sy'n ymgorffori dull iechyd cyhoeddus ac yn sail i'n penderfyniadau comisiynu. Mae'n cwmpasu'r strategaeth i ysgogi dull gweithredu cydgysylltiedig ar sail system gyfan, wrth ganolbwyntio ar anghenion unigolion a chydnabod effaith niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ar deuluoedd, cymunedau a chymdeithas.

Wrth wraidd y Fframwaith Strategol hwn, mae GambleAware wedi nodi **5 amcan hirdymor**, a fydd gyda'i gilydd yn arwain at gymdeithas sy'n ddiogel rhag niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Y rhain yw:

1. Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r risgiau yn sgil gamblo a'r niwed y mae'n ei greu ar draws y boblogaeth yn gyffredinol.
2. Atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ymhlith unigolion a chymunedau sydd fwyaf tebygol o'i brofi.
3. Atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo rhag gwaethygu.
4. Sicrhau bod unigolion a chymunedau'n derbyn amrywiaeth eang o wasanaethau priodol.
5. Lleihau etifeddiaeth niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

## Gwybodaeth am Gyngor Profiad Bywyd GambleAware

Pwrpas y Cyngor Profiad Bywyd (LEC) yw sicrhau bod cymunedau o bobl a chanddynt brofiad bywyd o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn gallu darparu cyngor arbenigol yng nghyswllt gweithgareddau, rhaglenni a datblygiad strategol GambleAware.

Mae'r Cyngor yn:

- cynrychioli barnau grwpiau a effeithir;
- darparu cyngor strategol ar sail profiad bywyd yr aelodau o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo;
- gwneud argymhellion a fydd yn llywio ac yn cyfrannu at waith cynllunio a datblygu strategol GambleAware. Rhennir y rhain â Bwrdd Ymddiriedolwyr GambleAware;
- gweithredu'n unol ag Amcanion Elusennol GambleAware.

Mae'r LEC hefyd yn cefnogi Bwrdd Ymddiriedolwyr GambleAware thîm ehangach GambleAware trwy:

- helpu i ganfod a deall cynulleidfaoedd GambleAware;
- darparu mewnwelediad a dealltwriaeth o'r hyn sydd dan sylw o fewn y gymuned Profiad Bywyd;
- Sganio'r gorwel o ran yr heriau a'r cyfleoedd o fewn y dirwedd fythol newidiol y mae GambleAware yn gweithredu oddi mewn iddi, wrth gadw o fewn cylch gorchwyl amcanion elusennol GambleAware.

Mae gan yr LEC arsyllfa gylchredol a sedd gynghorol yng nghyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolwyr GambleAware.

Darllenwch ragor am y Cyngor Profiad Bywyd a sut y mae GambleWare yn ymgysylltu â'r Gymuned Profiad Bywyd yma.

## Aelodaeth

Mae'r LEC yn cynnwys hyd at 12 aelod, gan gynnwys Cadeirydd. Mae GambleAware yn recriwtio ar hyn o bryd ar gyfer dwy sedd wag.

Cyfnod y swydd yw 2 flynedd, a gellir ei adnewyddu unwaith (hyd at uchafswm o 4 blynedd).

Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion o grwpiau sydd wedi'u heffeithio'n fwy nag eraill gan niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd ac sy'n dod o gymunedau lleiafrifol.

Ar gyfer y cylch recriwtio newydd hwn, rydym yn chwilio'n benodol am geisiadau gan breswylwyr o Gymru, i sicrhau bod gan y Cyngor Profiad Bywyd gynrychiolaeth lawn o blith y gwledydd datganoledig.

Wrth fyfyrio ynghylch y 12 mis cyntaf o weithgareddau'r LEC, dywedodd un o aelodau presennol yr LEC:

> *‘Pan ymunais a’r Cyngor Profiad Bywyd, doeddwn i ddim yn siŵr beth i’w ddisgwyl, ond roeddwn i wrth fy modd cael bod yn rhan ohono. Rydw i wedi dysgu llawer iawn am y sector a’r gwaith a’r cymorth rhyfeddol a ddarperir gan GambleAware ar gyfer y gymuned sydd â phrofiad bywyd o’r niwed sy’n gysylltiedig â gamblo.*
> *Ers dod yn aelod o’r LEC, fe gefais ymwneud â nifer o’r prosiectau a’r ffrydiau gwaith sy’n cefnogi gwaith GambleAware, a bu’r wybodaeth a ddysgais yn amhrisiadwy. Mae o wedi rhoi llwyfan i mi godi fy llais ac wedi rhoi hyder i mi deimlo bod fy nghyfraniad yn ddilys, ac mae hyn yn gwneud gwahaniaeth. Rwy’n teimlo fy mod nid yn unig yn rhan o’r Cyngor Profiad Bywyd, ond yn rhan o dîm GambleAware ac yn rhan o deulu.*
> *O’r cychwyn cyntaf, roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy nghroesawu, ac mae gwir ymdeimlad o fewn y cyngor bod pobl yn cadw golwg ar y naill a’r llall, ac yn sicrhau bod pawb mewn sefyllfa dda. Rwy’n teimlo fy mod yn gallu bod fy hun o fewn y Cyngor Profiad Bywyd, gallaf ofyn cwestiynau heb gael fy marnu.’*

## Meini prawf cymhwysedd

I fod yn gymwys ar gyfer y Cyngor Profiad Bywyd, rhaid i chi fod:

- Yn byw yng Nghymru;
- Yn 18 mlwydd oed neu drosodd;
- Gyda phrofiad bywyd o niwed sy’n gysylltiedig â gamblo:
- Wedi treulio mwy na 6 mis yn adfer o effeithiau gamblo (nid yw hyn ond yn berthnasol i’r rheiny sydd wedi profi niwed sy’n gysylltiedig â gamblo o ganlyniad i’w gamblo eu hunain, e.e. nid yw hyn yn berthnasol i ymgeiswyr sy’n nodi eu bod yn ‘rai eraill a effeithir’).
- Ddim yn gweithio - naill ai am dâl neu’n ddi-dâl - i’r diwydiant gamblo;
- Ddim yn derbyn (eich hun neu o ran y busnes yr ydych efallai’n gyfarwyddwr arno neu fod gennych fudd ariannol ynddo) cyllid LCCP RET (cyfraniadau gweithredwyr gamblo). Dylid nodi nad yw hyn yn berthnasol i weithwyr o dan lefel Cyfarwyddwr, neu i ymgynghorwyr sefydliadau sy’n derbyn cyllid RET yn uniongyrchol, neu weithwyr ac ymgynghorwyr sefydliadau y dyfarnwyd cyllid RET iddynt trwy GambleAware);

Nodwch os gwelwch yn dda: Gall aelodau o’r Cyngor Profiad Bywyd fod yn aelodau o grwpiau profiad bywyd eraill hefyd. Fodd bynnag, yn unol â’r wybodaeth a amlinellir yn yr adran ‘Gwrthdaro Buddiannau’, efallai y bydd angen i aelodau o’r LEC, sydd hefyd yn rhan o grwpiau eraill, adael yr ystafell ar adegau ar gyfer rhai eitemau ar yr agenda os oes achos o wrthdaro buddiannau. Yn dilyn hyn, byddent yn mynd ymlaen i gymryd rhan yn y cyfarfod yn ôl yr arfer.

## Trosolwg o’r gwaith a gynllunnir

Mae’r LEC yn cynnal tua phedwar cyfarfod y flwyddyn, sef un bob chwarter ar gyfartaledd.

Gall amlder a ffurf (yn bersonol neu ar-lein neu ar sail hybrid) y cyfarfodydd hyn amrywio i gyd-fynd â chynlluniau gwaith a chamau gweithredu’r LEC. Wythnos cyn bob cyfarfod, caiff pecyn cyfarfod ei gylchredeg trwy’r e-bost, sy’n cynnwys yr holl bapurau y mae angen eu darllen cyn y cyfarfod.

Cyn ymuno â’i gyfarfod cyntaf o’r Cyngor Profiad Bywyd, gofynnir i’r aelod LEC newydd fynychu rhywfaint o sesiynau hyfforddiant a chynefino. Rydym hefyd yn rhoi system fentora ar waith, ble caiff yr aelod LEC newydd ei bartneru ag aelod presennol o’r LEC trwy gydol y cyfnod cynefino, ac yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf yn y swydd.

Efallai y bydd gofyn i aelodau fod yn bresennol ar gyfer rhagor o ddiwrnodau/gweithio y tu allan i gyfarfodydd, a chymryd rhan mewn is-grwpiau er mwyn cyfrannu at weithgareddau perthnasol, ac o safbwynt strategol, ar draws GambleAware. Gall yr is-grwpiau hyn gyfarfod ar-lein, neu efallai y bydd gofynion teithio ychwanegol achlysurol i swyddfa GambleAware. Bydd cyfleoedd i gyfrannu at y ffrydiau gwaith hyn yn codi trwy gydol y flwyddyn, gan ddibynnu ar anghenion y sefydliad a blaenoriaethau’r LEC. Trafodir rhagor o fanylion fel rhan o’r sesiynau cynefino ac yn dilyn cyfarfodydd y Cyngor Profiad Bywyd.

Dywedodd un aelod o’r LEC a ymunodd â’r Cyngor yn 2023:

> *“Gan wybod fy mod yn ymuno â’r Panel yn hwyrach na’r mwyafrif o’r aelodau eraill, roeddwn i ychydig yn ofnus am ymuno â grŵp sydd wedi’i hen sefydlu, a oedd yn gyfarwydd â’r gwaith yr oedden nhw eisoes yn chwarae rhan fawr ynddo. Fodd bynnag, roeddwn yn teimlo o’r cychwyn cyntaf fy mod yn gyfforddus ac yn cael fy nghroesawu, doedd dim math o deimlad o bwysau o gwbl, neu ddisgwyliad i ddeall pob dim yn syth. Roeddwn i’n gallu dod yn gynefin â’r holl brosiectau yn fy mhwysau fy hun.”*

## Dull cydgynhyrchu

Mae dull cydweithredol o ran rhannu perchnogaeth yn allweddol i’r LEC.

Er enghraifft, cafodd y Cylch Gorchwyl (‘Terms of Reference’), y Dull Diogelu (‘Safeguarding Approach’) ac Ymddygiad Mewn Cyfarfodydd (‘Meeting Etiquette’) eu datblygu a’u mireinio ag aelodau presennol yr LEC, ynghyd â staff GambleAware sy’n ymwneud â llywodraethu ar draws y sefydliad neu’n gyfrifol am hynny.

Cyfeiriwch at yr adran Cwestiynau Cyffredin (‘FAQ’) am ragor o wybodaeth am y cais a pholisïau perthnasol.

## Rôl aelodau'r Cyngor Profiad Bywyd

Gwerthoedd ac Ymddygiadau

- Croesawir amrywiaeth o brofiadau, barnau a safbwyntiau, a gwelir hyn fel cryfder.
- Mae pawb yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan a chael eu clywed.
- Mae dull cydweithredol o gydweithio yn allweddol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.
- Mae pawb yn atebol am eu hymddygiadau, yn parchu eraill ac yn trafod unrhyw anghytundebau'n gwrtais.
- Mae o bob amser yn iawn i ofyn am gefnogaeth a help.

Yr hyn y byddwch yn ei wneud gyda'r LEC

- Gweithio mewn modd cydweithredol gydag aelodau eraill o'r Cyngor Profiad Bywyd i gynrychioli barnau grwpiau a effeithir gan niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.
- Cytuno ar gynllun gwaith a chyfrannu tuag ato, er mwyn i'r Cyngor Profiad Bywyd lywio gwaith cynllunio a datblygu strategol GambleAware, gydag aelodau eraill o'r Cyngor Profiad Bywyd a thîm cynnwys ('involvement team') GambleAware.
- Cefnogi'r gwaith o lywio amrywiaeth eang o weithgareddau GambleAware trwy wneud argymhellion a rhoi cyngor.

Yr hyn y byddwch yn ei gyfrannu at yr LEC

- Mewnwelediadau a chyngor ar sail eich profiad bywyd eich hun o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.
- Sylwadau ac adborth adeiladol i gyfrannu at gyfarfodydd yr LEC, a'i amcanion a'i gynllun gwaith.
- Croesawir arbenigedd mewn meysydd eraill sy'n berthnasol i waith GambleAware hefyd.
- Dealltwriaeth o lywodraethu corfforaethol (y mecanweithiau, y prosesau a'r cysylltiadau y caiff sefydliadau eu cyfarwyddo a'u rheoli oddi mewn iddynt) neu barodrwydd i ddysgu trwy hyfforddiant a ddarperir gan GambleAware.

Y sgiliau y bydd eu hangen arnoch

- Sgiliau rheoli amser: bod yn ddibynadwy ac yn drefnus wrth gwblhau tasgau a gytunwyd, a bod yn barod i ofyn i'r Cadeirydd neu staff GambleAware am ragor o gymorth os oes angen.
- Sgiliau cyfrifiadurol: gallu cael mynediad i negeseuon e-bost yn rheolaidd, er mwyn rhannu ac adolygu dogfennau ar-lein, ynghyd â chymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein pan fo angen.
- Sgiliau cyfathrebu: gallu rhannu eich barnau a'u mynegi'n glir, a'r gallu i wrando'n effeithiol wrth weithio gydag eraill; gallu siarad am eich profiad bywyd eich hun o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo o fewn cyfrinachedd yr LEC, ac mewn modd sy'n gwneud i chi deimlo'n gyfforddus.
- Sgiliau o ran gweithio fel tîm: gallu cydweithio mewn sefyllfa grŵp, hyd yn oed pan fydd anghytundeb â barnau a fynegir gan aelodau tîm eraill, gan barhau i fod yn barod i gyfrannu mewn modd cadarnhaol at drafodaethau'r grŵp.

## Yr amserlen ddethol

- Caiff yr alwad am geisiadau ei lansio ar Ddydd Mercher 20fed Mawrth 2024.
- Cynhelir sesiwn Wybodaeth a Holi ac Ateb ar Ddydd Iau 18fed Ebrill 2023, 12 - 1pm, i fynychu'r sesiwn, **cofrestrwch ymlaen llaw yma**.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **12pm ar Ddydd Llun 29ain Ebrill**. I wneud cais trwy gyfrwng y Saesneg, cwblhewch y Ffurflen Gais ar-lein hon sydd **ar gael yma.** I wneud cais trwy gyfrwng y Gymraeg, cwblhewch y Ffurflen Gais ar-lein hon sydd **ar gael yma.**
- Caiff ymgeiswyr eu hysbysu erbyn Dydd Llun 13eg Mai os ydynt yn cael eu gwahodd ar gyfer y cam cyfweld.
- Cynhelir cyfweliadau ar Ddydd Iau 23ain Mai, os yn bosib , yn swyddfa GambleAware yn Llundain.
- Rhoddir gwybod am ganlyniad y cyfweliadau erbyn Dydd Gwener 31ain Mai.
- Cynhelir hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd o'r Cyngor ym mis Mehefin, a bydd yn gymysgedd o sesiynau ar-lein a rhai a fydd yn gofyn i'r aelodau fod yn bresennol, a byddant yn cynnwys cyfle i gyfarfod ag aelodau presennol y Cyngor.
- Cynhelir y cyfarfod cyntaf o'r LEC ar Ddydd Iau 11eg Gorffennaf, unwaith eto, gorau oll os bydd modd mynychu'r cyfarfod yn bersonol, yn swyddfa GambleAware yn Llundain.

## Gwrthdaro buddiannau

Gofynnir i aelodau'r LEC lenwi ffurflen datganiad o fuddiant.

Os ceir achos o wrthdaro buddiannau rhwng aelod o'r LEC ac eitem ar agenda cyfarfod o'r Cyngor, gofynnir i'r unigolyn dan sylw adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ynghylch y mater hwnnw.

## Gwybodaeth ychwanegol

a. **Oes modd i mi wneud cais arall os oeddwn i eisoes wedi ymgeisio mewn cylchoedd recriwtio blaenorol ond heb fod yn llwyddiannus ar y pryd?**

Oes, gallwch wneud cais eto, os ydych yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd.

b. **Beth fydd trefn y cyfweliad?**

Caiff y cyfweliad ei strwythuro fel sgwrs anffurfiol gyda grŵp bach o gynrychiolwyr o GambleAware. Bydd hyn yn cynnwys dau aelod presennol o'r LEC, ynghyd ag Ymddiriedolwr a dau aelod staff o GambleAware. Gofynnir ychydig o gwestiynau i chi er mwyn i'r panel gael dod i'ch adnabod, a chael clywed rhagor am eich diddordeb yn y rôl a'ch addasrwydd ar ei chyfer, ac fe gewch chi gyfle i ofyn cwestiynau i'r panel hefyd.

Ar ddiwrnod y cyfweliad, fe gewch y cyfle i gael sgwrs anffurfiol â rhai o aelodau presennol yr LEC.

Bydd y cyfweliad yn para tua 1 awr. Rydym yn gobeithio cynnal cyfweliadau'n bersonol yn ein swyddfa yn Llundain (yn Holborn), a chewch ad-daliad am unrhyw gostau teithio. Fodd bynnag, os yw teithio'n rhwystr i chi, neu os nad yw'r dyddiad sydd wedi'i drefnu ymlaen llaw, sef Mai 23$^{ain}$, yn gyfleus i chi, rhowch wybod i ni, a byddwn yn ystyried gwneud trefniadau eraill.

c. **Polisi Tâl Cydnabyddiaeth ac Ad-dalu**

Gallwch ddod o hyd i bolisi GambleAware ynghylch tâl cydnabyddiaeth ac ad-dalu treuliau ar gyfer ymrwymo pobl a chanddynt Brofiad Bywyd **yma.**

Nodwch os gwelwch yn dda y gall aelodau'r LEC ddewis rhwng 3 opsiwn o ran ad-dalu: bod yn hunangyflogedig, bod ar gyflogres GambleAware fel gweithwyr dros dro, neu weithredu fel gwirfoddolwyr. Gellir cael rhagor o fanylion ynghylch ein dull o ad-dalu treuliau yn y polisi.

d. **Pa gyfleoedd i ddatblygu a gynigir gan GambleAware?**

Rydym eisiau annog amrywiaeth eang o bobl o wahanol gefndiroedd a chanddynt wahanol lefelau o wybodaeth ac arbenigedd, ac o fewn hynny, rydym yn cydnabod efallai y bydd angen darparu cyfleoedd i ddatblygu. Bydd GambleAware yn darparu cyfleoedd hyfforddi a mentora perthnasol i bob aelod o'r LEC: er enghraifft, cynigir rhywfaint o sesiynau hyfforddi ac uwchsgilio fel rhan o broses gynefino'r LEC ar gyfer aelodau'r LEC, a bydd rhagor o gyfleoedd ar gael trwy gydol y flwyddyn.

e. **Pa gymorth fydd ar gael?**

Mae lles cynrychiolwyr Profiad Bywyd o'r pwys mwyaf i GambleAware. Mae'r LEC wedi cydgynhyrchu papur pwrpasol gyda GambleAware, sy'n amlinellu ei ddull o gefnogi lles aelodau'r LEC. Yn hydref 2022, roedd yr LEC wedi mynd ati hefyd i gydgynhyrchu papur ynghylch Ymddygiad Mewn Cyfarfodydd, er mwyn mynd i'r afael ag arferion gweithio a rennir, i sicrhau bod pawb sy'n cyfrannu at y gwaith hwn yn gallu gwneud hynny'n ddiogel.

Fel y soniwyd yn flaenorol yn y pecyn hwn, rydym hefyd yn gweithredu system fonitro, sy'n golygu y bydd yr aelod newydd sy'n ymuno â'r LEC yn cael ei gefnogi gan aelod presennol o'r LEC trwy gydol y cyfnod cynefino. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cefnogaeth i chi gael ymgyfarwyddo â phecyn cyfarfod yr LEC: gall y pecyn hwn fod yn eithaf maith, ac efallai y bydd angen tua 2 awr i'w ddarllen ac i baratoi cyn bob cyfarfod, ond darperir cefnogaeth er mwyn i ni weithio gyda'n gilydd i ddatrys unrhyw ymholiadau posib y bydd gennych yn y cyswllt hwn.

f. **Ym mha fodd y mae hwn yn wahanol i'r datganiad o fuddiant ar gyfer y profiadau o ran Ymrwymo Unigolion â Phrofiad Bywyd ar draws gwaith ehangach GambleAware?**

Mae'r Cygor Profiad Bywyd yn rhoi cyngor annibynnol arbenigol i'r Bwrdd ynghylch gweithgareddau, rhaglenni a datblygiad strategol GambleAware. Bydd aelodaeth o'r LEC yn para am 2 flynedd.

Ni fydd cynrychiolwyr Profiad Bywyd sy'n **cofrestru** i gael clywed am **gyfleoedd i chwarae rhan yng ngwaith ehangach GambleAware** yn gwneud unrhyw ymrwymiad cychwynnol o ran amser. Caiff dewis o gyfleoedd unigol eu hanfon trwy negeseuon e-bost trwy gydol y flwyddyn, gydag amryw ddulliau i gyfrannu at waith dydd i ddydd, er enghraifft:

- Cyfrannu at grwpiau ffocws a gweithdai i'n helpu i ddatblygu agweddau ar ein rhaglenni a'n prosiectau, trwy, er enghraifft, ddarparu sylwadau wrth nodi blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith, a thrwy gynnig adborth ar syniadau ar gyfer prosiectau newydd.
- Cynnig adborth ar ddogfennau fel briffiau ar gyfer prosiectau neu adroddiadau gwerthuso neu ddogfennau eraill sy'n ymwneud â phrosiectau, er mwyn ein helpu i'w hadolygu cyn eu rhannu'n ehangach â'r cyhoedd.
- Cwblhau arolygon ar-lein i rannu eich safbwyntiau o ran eich profiad bywyd yng nghyswllt meysydd sy'n berthnasol i bortffolio prosiectau GambleAware.

g. **Alla i wneud cais i'r LEC ar gyfer cyfleoedd unigol i chwarae rhan ar yr un pryd â chofrestru i fod yn rhan o'r gymuned cynrychiolwyr Profiad Bywyd?**

Gallwch, mae'n bosib i chi wneud y ddau beth! Fodd bynnag, nodwch os gwelwch yn dda, os ydych yn llwyddiannus yn eich cais i'r LEC, efallai na fydd modd i chi gyfrannu at y cyfleoedd tymor byr eraill i chwarae rhan yng ngweithgareddau GambleAware. Mae hyn oherwydd yr angen i aelodau'r Cyngor Profiad Bywyd gynnal trosolwg strategol annibynnol o weithgareddau GambleAware.

## Cysylltwch â ni

O ran unrhyw gwestiynau, neu os ydych yn cael trafferth cael mynediad i'r ffeiliau sydd wedi'u mewnblannu o fewn y ddogfen hon, cysylltwch â ni trwy anfon e-bost at Involvement@gambleaware.org neu ffoniwch ni ar 07342870711 yn ystod oriau swyddfa.